

Cofnodion Cyfarfod Blynyddol Cyngor Tref Porthmadog a gynhaliwyd ar nos Fawrth, 15fed o Fedi 2020 am 7.00yh yn Neuadd y Ganolfan, Porthmadog.

Presennol : Cynghorwyr: Gwilym Jones(Cadeirydd), Selwyn Griffiths, Richard Williams, Jason Humphreys, Alwyn Gruffydd, Nia Jeffreys, Ian Jones, Seimon Brooks, Bethan Rees Jones, Llywelyn Rhys, Aled Griffiths Marian Roberts (Clerc dros dro)

1. Ymddiheuriadau : Dafydd Lake, Garol Hayes

2. Adroddiad y Cadeirydd

Croesawyd pawb i'r cyfarfod. Dywedodd y Cadeirydd fod ei ddwy flynedd o wasanaeth fel Cadeirydd wedi dod i ben a bod y cyfnod diweddar, ers mis Mai, wedi bod yn gyfnod anodd iawn iddo fel Cadeirydd ac i Glenda Burke fel Clerc. Roedd wedi synnu fod hyd at 80 o faterion wedi cael eu trafod a gweithredu arnynt yn ystod y ddwy flynedd. Ychydig iawn o gwynion a dderbyniodd gan drigolion y dref yn enwedig dros y cyfnod clo diweddar a'r misoedd yn dilyn. Roedd hyn yn brawf fod cymuned gref iawn ym Mhorthmadog. Yr unig gwyn a ddaeth i law oedd cwyn gan ymwelydd â'r dref yn cwyno nad oedd yn hapus fod y Cadeirydd wedi datgan fod angen rhannu elw parcio traeth Morfa Bychan. Roedd yn canmol gwasanaeth Glenda Burke am fynd y tu hwnt i'w dyletswyddau fel Clerc y Cyngor. Darllenodd lythyr o ymddiswyddiad ganddi. Ynndo roedd yn diolch am bob cefnogaeth a dderbyniodd gan y Cyngor dros yr 8 mlynedd o'i gwasanaeth fel Clerc y Cyngor ac roedd yn gresynu nad oedd ei sefyllfa bresennol yn caniatáu iddi barhau â'r gwaith. Bydd ei gwasanaeth yn dod i ben ar 1.10.2020. Roedd yn dymuno'r gorau i'r Cyngor i'r dyfodol.

Cynogiodd y Cyng. Richard Williams fod y Cyngor Tref yn anfon cerdyn o ddiolch i Glenda am ei gwasanaeth, y Cyng. Selwyn Griffiths yn eilio. Pasiwyd i wneud hyn.

3. Ethol Cadeirydd y Cyngor am 2020-2021

Cyng. Richard Williams yn cynnig fod Gwilym Jones yn parhau fel Cadeirydd. Cyng. Jason Humphreys yn eilio a cytunodd Gwilym Jones i barhau yn ei swydd.

4. Ethol is-Gadeirydd y Cyngor am 2020 - 2021

Cyng. Seimon Brooks yn cynnig fod y Cyng. Llywelyn Rhys yn parhau fel Is-Gadeirydd. Y Cyng. Selwyn Griffiths yn eilio a'r Cyng. Llywelyn Rhys yn cytuno i barhau yn ei swydd.

5. Ethol aelodau o'r pwyllgorau canlynol am y flwyddyn 2020/2021

Pwyllgor Cyllid / Pwyllgor Datblygu ac Eiddo : Aelodaeth 2019/2020 Cadeirydd y Cyngor - Cynghorydd Gwilym Jones
Is-gadeirydd y Cyngor - Cynghorydd Llywelyn Rhys
Ward Ddwyreiniol - Cynghorydd Jason Humphreys
Ward Orllewinol - Cynghorydd Melfyn Edwards
Ward Ynys Galch - Cynghorydd Nia Jeffreys
Ward Tremadog - Cynghorydd Aled Griffith
Ward Gest - Cynghorydd Seimon Brooks
Ward Morfa Bychan - Cynghorydd Selwyn Griffiths

Pwyllgor Staffio : Aelodaeth 2019/2020

Cadeirydd y Cyngor - Cyng. Gwilym Jones
Is-gadeirydd y Cyngor - Cyng. Llywelyn Rhys
Cyng. Melfyn Edwards, Cyng. Jason Humphreys, Cyng. Richard Williams.

6. Ethol cynrychiolwyr ar bwyllgorau allanol am 2020/ 2021 : Cynrychiolwyr 2019/2020

Is Bwyllgor Harbwr Porthmadog - Cynghorydd Llywelyn Rhys
Ymddiriedolaeth Rebecca - Cadeirydd y Cyngor - Cyng. Gwilym Jones
Y Ganolfan - Cyng. Gareth Williams (angen 2)
Amgueddfa Forwrol Porthmadog - Cynghorydd Llywelyn Rhys
Clwb Chwaraeon Madog - Cynghorydd Bethan O. Rees Jones
Y Ganolfan Gynghori - Cynghorydd Carol Hayes
Pwyllgor Ymgyrch Ysbyty - Cynghorydd Alwyn Gruffydd
Grŵp Mynediad Dwyfor - Cynghorydd Carol Hayes
Caru Port - Cynghorwyr Ian Jones a Richard Williams
Pwyllgor Efeillio - Cynghorydd Bethan O. Rees Jones
Pwyllgor Adran Dwyfor (Un llais Cymru) - Cynghorydd Alwyn Gruffydd - Cynghorydd Carol Hayes
Llywodraethwyr Ysgol y Gorlan - Dim cynrychiolaeth

Ymglyn â materion 5 a 6, cytunwyd ar gynnig y Cyng. Jason Humphreys (a eilwyd gan y Cyng. Richard Williams) fod y cynrychiolwyr yn aros yr un fath ar gyfer 2020 - 2021. Penderfynwyd ar hyn.

7. Dogfennau Rheolaeth (copïau o'r rhai presennol ynghlwm)

Angen ystyried a derbyn y dogfennau isod yn flynyddol.

- Rheolau Sefydlog
- Rheolau Ariannol
- Asesiadau Risg
- Archwiliad Mewnol y Cyngor
 - Côt Ymddygiad
- Cofrestr Asedau

Cytunwyd ar gynnig y Cyng. Selwyn Griffiths (a eilwyd gan y Cyng. Jason Humphreys) fod y dogfennau uchod yn cael eu derbyn.

8. Arwyddo datganiad i drosglwyddo Lwfans y Cadeirydd am 2020/2021

Cytunwyd ar gynnig y Cyng. Richard Williams (a eilwyd gan y Cyng. Selwyn Griffiths) fod y Lwfans yn aros yr un fath os oedd y Cadeirydd yn credu iddo fod yn ddigonol. Cytunodd y Cadeirydd ar hyn.